

# Canllaw categoreiddio ysgolion uwchradd: Gwybodaeth i rieni a gofalwyr



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae'r polisi ar gategoreiddio ysgolion yn unol a'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn newid. Mae ysgolion yn cael eu rhoi mewn categorïau i'ch helpu chi i ddewis pa fath o ysgol fydd yn gweithio orau i'ch plentyn. Bydd eich awdurdod lleol yn rhoi gwybod i chi a Llywodraeth Cymru beth yw'r categorïau yma, er mwyn eich helpu chi i ddewis lle i anfon eich plentyn. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gallu amrywio o un ardal i'r llall, ac mae categoreiddio ysgolion yn ffordd hawdd o wneud yn siŵr fod pawb yn deall pa iaith sy'n cael ei defnyddio ac yn lle.

Mae **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr** yn gosod ein gweledigaeth am yr iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac rydyn ni eisiau cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae addysg yn rhan hollbwysig o'n gweledigaeth, ac rydyn ni'n credu bod gan bob plentyn hawl i gael yr un cyfle i ddysgu Cymraeg. Rydyn ni eisiau creu siaradwyr Cymraeg hyderus o bob cefndir a rhan o Gymru.



Un ffordd wych o sicrhau hyn yw **addysg drochi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg**. Rydyn ni hefyd angen cynyddu'r nifer o ddysgwyr Cymraeg hyderus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog felly rydyn ni eisiau i bob plentyn gael cyfle i ddefnyddio Cymraeg y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Rydyn ni'n annog ysgolion i defnyddio'r Gymraeg wrth iddyn nhw ddiffinio'u categori ieithyddol.



Mae **Cwricwlwm i Gymru** yn dangos sut gall ysgolion ddatblygu dysgu Cymraeg ar draws pob lleoliad, gan ddechrau o ychydig iawn neu ddim Cymraeg a gweithio tuag at greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd hyn yn helpu ein dysgwyr i ddatblygu ac adeiladu ar eu sgiliau Cymraeg.



Gallwch chi ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn ar unrhyw adeg, hyd yn oed ar bwynt mynediad hwyrach. Mae ein **canolfannau trochi hwyr** yma i helpu'ch plentyn i ddysgu Cymraeg mewn amser byr ac yna bydd eich plentyn yn barod i gario ymlaen gyda'i addysg yn y Gymraeg. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fanylion achos mae yna ganolfannau ar draws Cymru.



Bydd ysgol eich plentyn mewn un o **dri chategori**.

**Categori 1: Cyfrwng Saesneg** Saesneg yw prif iaith yr ysgolion yma, a bydd cyswllt gyda rhieni a gofalwyr yn Saesneg. Mae ysgolion categori 1 yn gweld fod creu ethos Gymreig am gefnogi ac annog agweddau positif tuag at ddefnyddio Cymraeg.

Mewn ysgol categori 1, bydd eich plentyn yn dysgu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg yn unol ag oed a gallu. Bydd yn dysgu Cymraeg fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gydag o leiaf 15% o weithgaredd ysgol eich plentyn (y tu mewn a thu allan i'r dosbarth) yn y Gymraeg.

**Categori 2: Dwy iaith** Mae'r ysgolion yma'n defnyddio Cymraeg a Saesneg, a bydd cyswllt gyda rhieni a gofalwyr yn y ddwy iaith. Bydd ysgolion categori 2 yn deall yn iawn fod cynnal ethos Gymreig yn yr ysgol yn cefnogi agweddau positif tuag at ddefnyddio Cymraeg.

Mewn ysgol categori 2, bydd eich plentyn yn dysgu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando Saesneg a Cymraeg yn unol ag oed a gallu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau ymhellach drwy gynyddu faint o amser sy'n cael ei dreulio yn dysgu yn Gymraeg.

Bydd eich plentyn yn gallu dewis dilyn o leiaf 40% o weithgareddau'r ysgol (y tu mewn a thu allan i'r dosbarth) yn y Gymraeg.

**Categori 3: Cyfrwng Cymraeg** a **Chategori 3P: Cyfrwng Cymraeg penodedig**

Mae'r ysgolion yma'n cael eu categoreiddio i adlewyrchu gwahanol ddulliau addysgu a natur ieithyddol yr ardal. Cymraeg yw prif iaith yr ysgolion yma, a bydd cyswllt gyda rhieni a gofalwyr yn y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae gan yr ysgolion hyn ethos Gymreig gryf yn amlwg, a bydd eich plentyn yn cael pob help a chefnogaeth i ddefnyddio Cymraeg ym mhob sefyllfa posib y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn unol ag oed a gallu.

Mewn **ysgolion categori 3**, bydd eich plentyn yn gallu dewis dilyn o leiaf 70% o'r meysydd dysgu a phrofiad (ar wahân i Saesneg) a gweithgareddau ysgol y tu allan i'r dosbarth yn y Gymraeg.

Mewn **ysgolion categori 3P**, bydd eich plentyn yn dilyn o leiaf 90% o'r meysydd dysgu a phrofiad (ar wahân i Saesneg) a gweithgareddau ysgol y tu allan i'r dosbarth yn y Gymraeg.